



Gweithgareddau ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru (WSP)

www.diogelu.cymru

Egwyddorion a deddfwriaeth sy'n sail i ddiogelu yng Nghymru

Yn y cyflwyniad, chwiliwch am y "Prif Egwyddorion". Edrychwch ar yr egwyddorion a'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n berthnasol i'r bobl rydych yn gweithio/gwirfoddoli gyda nhw, plant a/neu oedolion sydd mewn perygl.

Lawrlwythwch yr Ap



Diffiniadau

Cadarnhewch beth rydym yn ei olygu wrth "ddiogelu". Cewch ddiffiniad yn yr eirfa. Ydy hyn yn cyd-fynd â'ch dealltwriaeth chi o'r term?

Cadarnhewch beth rydym yn ei olygu wrth "blentyn yn wynebu risg" a/neu "oedolyn yn wynebu risg". Fe welwch y diffiniadau yn yr eirfa. Ydy hyn yn cyd-fynd â'ch dealltwriaeth chi o'r term/termau?

Os darllenwch chi ar draws y ddau ddiffiniad, beth sy'n wahanol a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?

Dyletswydd i adrodd

Dewch o hyd i'r diffiniad hwn yn yr eirfa. Beth mae hyn yn ei olygu i'ch rôl chi a'ch sefydliad? Drwy ddilyn y **Ddyletswydd i Adrodd** a **Chyfrifoldebau i Adrodd** cewch ragor o wybodaeth.

Arferion diogelu

Dylai arferion diogelu effeithiol ganolbwyntio ar y plentyn neu'r unigolyn. Dewch o hyd i'r termau hyn yn yr eirfa. Ai dyma'r ffordd y disgwylir i chi roi diogelu ar waith yn eich sefydliad?

Ydych chi'n cefnogi hawl yr unigolyn i eiriolaeth? Edrychwch ar y diffiniad o "eiriolaeth" yn yr eirfa.

Gan ddefnyddio'r eirfa, cadarnhewch eich dealltwriaeth o alluedd meddyliol (Deddf Galluedd Meddyliol 2005) a sut gellir penderfynu ar hyn. Mae **Awgrymiadau Ymarfer ar gyfer Oedolion sy'n wynebu risg** os dilynwch y **Ddyletswydd i Adrodd** (adran 2), sgroliwch drwy'r rhestr o benodau, dod o hyd i **Gofyn am Gydsyniad**, a sgrolio i'r diwedd.



Cam-drin a niwed

Gan ddefnyddio'r eirfa, cadarnhewch eich dealltwriaeth o'r gwahanol gategoriâu o gam-drin ac esgeulustod. Y categorïau yw:

- cam-drin corfforol
- rhywiol
- ariannol
- emosiynol/seicolegol
- esgeuluso.

Mae'r rhain i gyd yn berthnasol ar gyfer plant ac oedolion.

Drwy ddilyn y **Ddyletswydd i Adrodd a Chyfrifoldebau i Adrodd** cewch ragor o wybodaeth yn yr **Awgrymiadau Ymarfer: Arwyddion a Dangosyddion Cam-drin ac Esgeuluso**.

Gan ddefnyddio'r eirfa, cadarnhewch eich dealltwriaeth o'r gwahanol ffynonellau o niwed.

Mae'r ffynonellau niwed yn cynnwys:

- cam-drin domestig
- cam-fanteisio
- caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl
- cam-drin ar sail "anrhydedd"
- cam-drin ar-lein a meithrin perthynas amhriodol, a all effeithio ar blant ac oedolion
- gall plant hefyd brofi cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ac anffurfio organau cenhedlu benywod.

Drwy ddilyn y **Ddyletswydd i Adrodd a Chyfrifoldebau i Adrodd** cewch ragor o wybodaeth yn yr **Awgrymiadau Ymarfer: Rhwystrau posibl** i gydnabod ac adrodd am gamdriniaeth ac esgeulustod – a allai unrhyw un o'r rhain fodoli yn eich sefydliad chi neu yn eich amgylchiadau chi eich hun?

Dysgwch fwy am ganiatâd neu gydsyniad, beth mae'n ei olygu a sut i annog rhywun i roi ei gydsyniad i hysbysiad diogelu.

Dewiswch y penawdau **Plant a phobl ifanc** neu **Oedolyn sy'n wynebu risg**, dilyn **Dyletswydd i Adrodd** (adran 2), sgrolwch drwy'r rhestr o benodau, er mwyn dod o hyd i **Gofyn am Gydsyniad**. Ydych chi'n cynnal y sgysia hyn gydag unigolion pan fydd gennych bryderon diogelu?

A oes gennych y wybodaeth o fewn eich sefydliad a fydd yn eich helpu i wneud hysbysiad diogelu cadarn?

Dewiswch **Plant a phobl ifanc** neu **Oedolyn sy'n wynebu risg**, dilyn **Dyletswydd i Hysbysu** (adran 2), sgrolwch drwy'r rhestr o benodau, er mwyn dod o hyd i'r bennod Casglu gwybodaeth er mwyn gwneud hysbysiad.

Ydy'ch sefydliad yn casglu ac yn cofnodi'r wybodaeth angenrheidiol ynghylch eich defnyddwyr gwasanaeth?



Gan ddefnyddio'r eirfa, atgoffwch eich hun beth yw ystyr y term "ymarferydd" a hefyd beth yw ystyr "camdriniaeth broffesiynol".

Ydych chi'n ymwybodol o'r ymddygiad y mae eich sefydliad (neu'ch proffesiwn: www.gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau) yn ei ddisgwyl gennych chi?

Gofalwch eich bod chi'n gwybod pwy yw'r Person Diogelu Dynodedig yn eich sefydliad a ble arall y gallech fynd am gyngor ac arweiniad.